WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Medi 2011
www.wao.gov.uk

Amcangyfrif Ategol o Incwm a Gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben ar 31 Mawrth 2012

Amcangyfrif Ategol o Incwm a Gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben ar 31 Mawrth 2012

Cyflwynwyd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w harchwilio o dan Baragraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Cynnwys

Cyflwyniad 4

Diben y Cynnig Cyllidebol Ategol hwn 5

Gwariant cyfalaf 5

Cais am adnoddau ychwanegol 5

Dadansoddiad o'm cais net am adnoddau 6

Crynodeb 7

Atodiad 1 - Crynodeb o ofynion cyllidebol 2011-12 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllidebol Gweinidogion Cymru o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 8

Cyflwyniad

1 Pennir fy nghyllideb, fel Archwilydd Cyffredinol, ar ôl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus archwilio fy amcangyfrif blynyddol o incwm a gwariant a'i gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

2 Ar ôl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus archwilio fy amcangyfrif blynyddol gwreiddiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12 ar 11 Tachwedd 2010, fe'i cyflwynwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 22 Tachwedd 2010.

3 Fel y nodaf isod, hoffwn ddiwygio'r amcangyfrif gwreiddiol hwn a gwahoddaf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i archwilio a chyflwyno'r amcangyfrif hwn o'm hincwm a'm gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2012.

Diben y Cynnig Cyllidebol Ategol hwn

4 Hoffwn ddiwygio fy amcangyfrif gwreiddiol o'm gofyniad adnoddau net, sef £4,853,000 ar gyfer 2011-12 a'm hamcangyfrif o'r arian parod cysylltiedig sydd ei angen arnaf o Gronfa Gyfunol Cymru, sef £4,753,000. Mae adnoddau yn wahanol i arian parod am ei fod yn ystyried trafodion anariannol (e.e, dibrisiant asedau) ac effaith dyledwyr a chredydwyr ar incwm a gwariant. Rwyf am wneud hyn er mwyn cywiro'r modd yr ymdriniwyd â gwariant cyfalaf yn fy amcangyfrif gwreiddiol a rhoi mwy o wybodaeth am y modd y mae adnoddau y gofynnwyd amdanynt yn wreiddiol yn cael eu defnyddio. Mae'r diwygiadau hyn yn dilyn gwersi a ddysgwyd wrth baratoi cyfrifon 2010-11 ac fe'u hategir gan argymhellion a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol yr Alban a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

5 At hynny, rwy'n ceisio cynyddu fy nghais gwreiddiol am adnoddau £550,000 i £5,403,000 er mwyn lleihau costau fy staff ymhellach drwy gynllun diswyddo gwirfoddol. Mae fy nghyfrifon ar gyfer 2010-11 yn dangos bod adnoddau gwerth £569,000 heb eu defnyddio, ac felly nid wyf yn gofyn am adnoddau ychwanegol ar gyfer y ddwy flynedd. Mewn gwirionedd mae fy nghais am adnoddau net yn cyfateb i ostyngiad bach o £19,000 yn gyffredinol. Mewn arian parod, mae fy nghyfrifon ar gyfer 2010-11 yn dangos bod £629,000 yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru. Rwyf am ddefnyddio £550,000 o'r arian parod hwn a fyddai'n cael ei ddychwelyd i ariannu'r cynllun diswyddo gwirfoddol fel arall, gyda'r balans o £79,000 yn cael ei ad-dalu.

6 Ceir rhagor o wybodaeth am bob un o'r materion hyn isod.

Gwariant cyfalaf

7 Ni nododd fy amcangyfrif gwreiddiol o incwm a gwariant ar gyfer 2011-12 unrhyw wariant cyfalaf ar wahân. Rwy'n amcangyfrif mai £50,000 fydd fy ngwariant cyfalaf yn 2011-12, ac y caiff £20,000 o'r gwariant hwnnw ei ariannu gan y gofyniad adnoddau net, sef £4,853,000, a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol gwreiddiol ar gyfer 2011-12; ariennir y gweddill o incwm o ffioedd.

8 Felly, yn yr amcangyfrif ategol hwn, mae £20,000 a ddosbarthwyd yn wariant refeniw yn yr amcangyfrif gwreiddiol yn cael ei ailddosbarthu'n wariant cyfalaf. Nid yw'r addasiad technegol hwn yn cael unrhyw effaith net ar gyfanswm yr adnoddau ar gyfer Archwilydd Cyffredinol a gymeradwywyd yn y Cynnig Cyllidebol gwreiddiol ar gyfer 2011-12.

Cais am adnoddau ychwanegol

9 Nodais yn fy amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer 2011-12 rai mesurau roeddwn eisoes wedi'u cymryd i leihau costau staff, gan gynnwys prosiect cynllunio'r gweithlu, peidio â llenwi pob swydd wag a chynllun diswyddo gwirfoddol.

10 Gwnaethom fuddsoddi tua £1,000,000 yn y cynllun diswyddo gwirfoddol y gadawodd staff Swyddfa Archwilio Cymru oddi tano yn ystod 2010-11. Erbyn diwedd 2011-12, bydd cost lawn y cynllun hwn wedi'i hadennill gydag arbedion rhan-flwyddyn o £375,000 yn 2010-11, arbedion blwyddyn lawn o £797,000 yn 2011-12 ac arbedion ychwanegol mewn blynyddoedd i ddod. Rwyf bellach wedi nodi

cyfleoedd i leihau costau staff Swyddfa Archwilio Cymru ymhellach drwy gynllun diswyddo gwirfoddol newydd. Caiff y cynllun hwn ei ymestyn i gynnwys pob aelod o staff a bydd yn cynnwys diswyddo gwirfoddol a newidiadau i batrymau gwaith er mwyn sicrhau cymaint o hyblygrwydd â phosibl wrth ddefnyddio'r gweithlu. Bydd hefyd yn helpu i ailstrwythuro ein tîm archwilio perfformiad i lywio ein gwaith ar gyfer amgylchedd allanol newydd a gwella ein prosesau cyflawni.

11 Rwy'n amcangyfrif mai cyfanswm cost y cynllun diswyddo gwirfoddol newydd hwn yn 2011-12 fydd tua £800,000 ac y bydd yn sicrhau arbedion cylchol o £200,000 y flwyddyn o leiaf a chymysgedd o sgiliau sy'n cyd-fynd yn agosach â gofynion gwaith yn y dyfodol. Caiff cost y cynllun ei hadennill o fewn tair i bedair blynedd ac wedyn bydd yn sicrhau arbedion parhaus. Er mwyn i mi allu sicrhau'r arbedion hyn mae angen i ddigon o staff ddangos diddordeb yn y cynllun.

12 Rwy'n amcangyfrif y gallaf roi £250,000 i ariannu'r cynllun hwn o'm cyllideb bresennol ar gyfer 2011-12, ond bydd angen adnoddau ychwanegol gwerth £550,000 arnaf i ariannu'r cynllun arfaethedig yn llawn.

13 Dangosodd fy nghyfrifon archwiliedig ar gyfer 2010-11 fod adnoddau gwerth £569,000 heb eu defnyddio a balans arian parod o £629,000 i'w dalu i Gronfa Gyfunol Cymru. Yn gyffredinol ar gyfer 2010-11 a 2011-12, rwyf felly yn gofyn am ostyngiad bach o £19,000 mewn adnoddau net.

Dadansoddiad o'm cais net am adnoddau

14 Yn Nhabl 1 rwy'n darparu, er gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, fy amcangyfrif wedi'i ddiweddaru o'r modd y defnyddir yr adnoddau net a gymeradwywyd ar gyfer 2011-12.

Tabl 1 - Amcangyfrif o'r defnydd a wneir o'r gofyniad adnoddau net a gymeradwywyd

	£'000
Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian gan yr Archwilydd Cyffredinol	1,635
Gweithio gydag eraill i rannu dysgu, gan gynnwys darparu'r Gyfnewidfa Arfer Da	200
Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol	250
Ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill	80
Cymeradwyo ceisiadau i ddefnyddio arian o Gronfa Gyfunol Cymru	15
Cyfraniadau at y gweithgareddau canlynol: • Hyfforddi a datblygu staff • Seilwaith TG • Cymorth technegol, ymchwil a datblygu • Datblygu a gwella busnes	 850 850 500 453
Gwariant cyfalaf (gweler Paragraff 5 uchod)	20
Cais gwreiddiol	**4,853**
Cais ychwanegol – cynllun diswyddo gwirfoddol	550
Cais diwygiedig	**5,403**

Crynodeb

15 Yn Nhabl 2 rwy'n rhoi crynodeb o'r adnoddau rwyf yn gofyn amdanynt drwy'r Cynnig Ategol hwn ac yn Nhabl 3 rwy'n cysoni effaith ar fy ngofyniad arian parod ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Tabl 2 - Crynodeb o geisiadau am adnoddau

	Adnoddau refeniw £'000	Adnoddau cyfalaf £'000	Cyfanswm adnoddau £'000
Amcangyfrif gwreiddiol	4,853	0	4,853
Trosglwyddo o refeniw i gyfalaf	(20)	20	0
Cais ychwanegol i ariannu'r cynllun diswyddo gwirfoddol	550	0	550
Amcangyfrif diwygiedig	5,383	20	5,403

Tabl 3 - Cysoni'r gofyniad arian parod net

	£'000
Amcangyfrif gwreiddiol	4,753
Gofyniad ychwanegol	550
Amcangyfrif diwygiedig	5,303

Atodiad 1 - Crynodeb o ofynion cyllidebol 2011-12 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllidebol Gweinidogion Cymru o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), mae'n rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllidebol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi'r defnydd o adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i bersonau perthnasol penodol, gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol. Pennir cyllideb yr Archwilydd Cyffredinol, o dan Baragraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf 2006, ar ôl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus archwilio ei amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau, a'i gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

O ran gwasanaethau a dibenion yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2012, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r canlynol:

- yr adnoddau sydd i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- yr adnoddau sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol y gall eu cadw (yn hytrach na'u talu i Gronfa Gyfunol Cymru);
- y swm y gellir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol.

Ceir crynodeb o'r gofynion hyn, na ellir ond darparu amcangyfrifon ar eu cyfer oherwydd amrywioldeb llifau incwm, yn Nhabl 4 isod.

Tabl 4 - Crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2011-12

	£ miliwn
Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni at ddefnydd yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a chyflawni swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig llywodraeth leol.[1]	5.403
Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau ar gyfer gwasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (ac eithrio incwm o dan Ran 1 ac Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009), costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol a phroffesiynol a thechnegol ac ati, costau staff wedi'u secondio a adenillir , benthyciadau staff a ad-delir, taliadau prydlesu ceir a adenillir, a llog a geir ar ffioedd balansau gwaith at ddefnydd yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.[2]	8.024
Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan yr Archwilydd Cyffredinol.[3]	5.303

1 Dyma'r refeniw a'r gwariant cyfalaf net o ran adnoddau y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol eu hawdurdodi drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(a) o Ddeddf 2006.
2 Dyma'r incwm sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio'r incwm sy'n codi o weithgareddau llywodraeth leol) y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol ei awdurdodi drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(b) i'w ddefnyddio ar wasanaethau cysylltiedig yn hytrach na chael ei dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru.
3 Dyma'r arian parod sydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer taliadau net amcangyfrifedig yr Archwilydd Cyffredinol (taliadau llai derbyniadau) sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn i'w awdurdodi gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(c) o Ddeddf 2006.

Tabl 5 - Cysoni'r gofyniad am adnoddau â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

	2010-11 £ miliwn	2011-12 £ miliwn
Cais net am adnoddau	5.047	5.403
Newid o ran dyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn a gwaith sy'n mynd rhagddo, credydwyr a darpariaethau, ac incwm gohiriedig	0.227	0.100
Taliadau cyfalaf (dibrisiant)	(0.200)	(0.200)
Gofyniad arian parod net	5.074	5.303

Yn ogystal â'r symiau a ddangosir yn Nhabl 4, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cronni adnoddau o weithgareddau llywodraeth leol o dan Ran 1 ac Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, y caniateir iddo eu cadw i'w defnyddio mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau o dan y darpariaethau statudol hynny. Yn ystod 2011-12, amcangyfrifir y bydd yr adnoddau hyn yn dod i gyfanswm o £11.379 miliwn (2010-11: £11.920 miliwn). O dan Baragraff 9(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006, awdurdodir yr Archwilydd Cyffredinol i gadw incwm o'r fath yn hytrach na'i dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw felly yn rhan o'r swm i'w awdurdodi gan Gynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(b) o Ddeddf 2006 ond fe'i cynhwysir er gwybodaeth.